Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod	19 / 07 / 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Cyng Jason MacLellan, Arweinydd Y Cyngor**,**
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfriethiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Teitl	Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig – Penodi Cyfarwyddwyr

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â chyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr (Bwrdd) Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (HSDd Cyf) a phenodiad cyfarwyddwyr gan y Cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Briffio aelodau ar gyfansoddiad y Bwrdd a gofyn i'r Cyngor benodi cyfarwyddwyr newydd yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn penodi'r Cynghorydd Gill German, Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Theuluoedd, a'r Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau i fod yn Gyfarwyddwyr HSDd Cyf.

3.2. Bod y Cyngor yn cadarnhau penodiad Aelod nad yw'n Aelod Cabinet fel Cyfarwyddwr HSDd Cyf.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 30 Mai 2019 cymeradwyodd y Cyngor greu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol Cyfyngedig trwy Warant nid er elw fel model darparu amgen ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden ar ran y Cyngor. Enw'r cwmni hwn yw Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (HSDd Cyf).

4.2. Y Cyngor yw unig berchennog ac aelod HSDd Cyf. Mae'r berthynas hon wedi'i nodi mewn Cytundeb Aelod a wnaed rhwng y Cyngor a HSDd Cyf. Mae'n nodi natur y berthynas rhwng HSDd Cyf a'r Cyngor, fel perchennog y cwmni, ac yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r materion y mae HSDd Cyf angen caniatâd y Cyngor yn eu cylch cyn y gall weithredu.

4.3. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am redeg y cwmni. Mae cyfansoddiad y Bwrdd ar hyn o bryd fel a ganlyn

• Rheolwr Gyfarwyddwr – Jamie Groves,

• Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth (gwag),

• Aelod Arweiniol dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd (gwag),

• Cyfarwyddwr Annibynnol x 2 (Paul McGrady a Sian Rodgers),

• Aelod etholedig heb fod yn Gabinet (Peter Prendergast),

• Aelod o'r UDA, (Nicola Stubbins)

4.4. Mae'r ddwy swydd ar y Bwrdd sydd i'w llenwi gan Aelodau Arweiniol yn wag gan fod eu swyddi cyfarwyddwr wedi dod i ben pan ddaethant i ben â dal y rolau hynny yn dilyn yr etholiad. Roedd rolau'r Aelod Arweiniol a nodir uchod yn adlewyrchu'r ffaith bod yr aelodau Arweiniol perthnasol yn dal y portffolio Hamdden a'r portffolio Addysg.

4.5. Mae Erthyglau Cymdeithas HSDd Cyf yn darparu mai'r Cyngor yn unig all benodi neu ddiswyddo cyfarwyddwyr, fodd bynnag, gofynnwyd am farn y Cabinet ynghylch cyfansoddiad y Bwrdd, yn benodol, y swyddi cyfarwyddwyr i'w llenwi gan aelodau'r Cabinet. Mae'r Cabinet wedi nodi y byddai'n well ganddynt i'r aelodau arweiniol

sydd â'r portffolios addysg a hamdden lenwi'r swyddi hyn a chael eu penodi i'r Bwrdd, ac adlewyrchir hyn yn yr argymhellion yn adran 3 o'r adroddiad hwn.

4.6. Mae un swydd arall i'w llenwi ar y Bwrdd gan aelod etholedig nad yw'n aelod o'r Cabinet. Y Cynghorydd Peter Prendergast sy'n llenwi'r swydd hon ar hyn o bryd. Gofynnir i'r Cyngor gadarnhau penodiad aelod nad yw'n aelod o'r Cabinet i'r swydd hon.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau corfforaethol

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Testun yma Ymgynghorwyd yn helaeth ag amrywiaeth o rhandaliadau cyn creu HSDd Cyf. Ymgynghorwyd â Rheolwr-gyfarwyddwr HSDd Cyf ynghylch y swyddi gweigion sy'n bodoli ar y Bwrdd ar hyn o bryd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Er nad oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn, mae'n bwysig bod trefniadau llywodraethu cryf yn cael eu cynnal i helpu i leihau risgiau wrth fynd ymlaen. Cefnogir yr adroddiad yn llawn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg na fydd cario swyddi gweigion ar y Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth ddigonol i HSDd Cyf.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

11.2. Erthygl 13 Erthyglau Cymdeithas Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig